

## Fforwm Cydraddoldeb i Bobl Anabl

9.00 a.m. Dydd Mercher 27 Mawrth 2019  
Ystafell Gynadledda B, Tŷ Hywel, Bae Caerdydd

### Cofnodion y Cyfarfod

#### Yn bresennol:

#### Cadeirydd

Jane Hutt AC Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip

#### Aelodau

Rhian Davies	Prif Weithredwr, Anabledd Cymru
Ross Thomas	Rheolwr Polisi a Materion Cyhoeddus, Tai Pawb
Joanna Fashan	Pennaeth Gwasanaethau'r De a Chyflogadwyedd, Whizz-Kidz
Zoe Richards	Anabledd Dysgu Cymru
Daisy Cole	Cyfarwyddwr Cymru, Action on Hearing Loss
Rhian Stangroom-Teel	Rheolwr Polisi a Materion Cyhoeddus Cymru, Leonard Cheshire
Danni Richards	Swyddog Datblygu (Plant Anabl), Plant yng Nghymru
Peter Jones	Cŵn Tywys Cymru
Owen Williams	Cyfarwyddwr, Cyngor Cymru i'r Deillion
Martyn Jones	Cynrychioli'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol - Pwyllgor Cymru

#### Llywodraeth Cymru

Alyson Francis	Dirprwy Gyfarwyddwr yr Is-adran Cymunedau
Paul Dear	Pennaeth y Gangen Cydraddoldeb
Lisa Pollard	Y Gangen Cydraddoldeb
Eryl Loring	Y Gangen Cydraddoldeb

#### Ymddiheuriadau:

Daniel Hurford	CLILC
Catherine Lewis	Plant yng Nghymru

### 1. Croeso a Chyflwyniadau

1.1 Croesawodd y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip aelodau'r Fforwm i'r cyfarfod, cafwyd cyflwyniadau unigol a nodwyd yr ymddiheuriadau.

### 2. Cofnodion a Chamau Gweithredu'r Cyfarfod Blaenorol

2.1 Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 27 Mehefin 2018 yn gofnod cywir.

2.2 Nid oedd y Cam Gweithredu yn Adran 6 o'r cofnodion, a oedd yn gofyn i ysgrifenyddiaeth y Fforwm gysylltu â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC)

er mwyn casglu gwybodaeth am y gwasanaethau sefydlu sydd ar gael i blant â nam ar eu golwg, wedi cael ei gymryd nes y paratodau ar gyfer y cyfarfod heddiw. Ymddiheurodd Paul Dear (PD) am hyn. Roedd Daniel Hurford o CLILC wedi anfon ymddiheuriadau ar gyfer y cyfarfod hwn, ond darparodd y diweddariad canlynol:

*Aeth Swyddog Polisi CLILC ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol ac Iechyd i gyfarfod diweddar Strategaeth Golwg Cymru a gaiff ei gadeirio gan RNIB. Cafodd materion tebyg yn ymwneud â lleihad mewn gwasanaethau cymorth sylw yn adroddiadau 'Cyflwr y Wlad' gan Gyngor Cymru i'r Deillion, sydd hefyd wedi cael eu hystyried yng nghyfarfod Grŵp Llywio Gofal Llygaid Cymru Gyfan Llywodraeth Cymru ym mis Chwefror ac a gaiff eu cyflwyno yng nghyfarfod y Grŵp Trawsbleidiol ar Olwg ym mis Mawrth. Cytunwyd y byddai'r adroddiadau yn cael eu hystyried hefyd yng nghyfarfod nesaf y Grŵp Polisi Gwasanaethau Cymdeithasol gydag aelodau cabinet awdurdodau lleol dros wasanaethau cymdeithasol ym mis Ebrill.*

### **3. Diweddariad ar 'Gweithredu ar Anabledd: Yr Hawl i Fyw'n Annibynnol'**

- 3.1 Cynhaliwyd ymgynghoriad yn ddiweddar ar Fframwaith newydd Llywodraeth Cymru 'Gweithredu ar Anabledd: Yr Hawl i Fyw'n Annibynnol'. Dywedodd y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip ei bod yn falch o glywed bod 67 o ymatebion wedi dod i law a gwahoddodd Lisa Pollard (LP) i amlinellu rhai o'r canfyddiadau allweddol a ddaeth i'r amlwg wrth ddadansoddi'r ymatebion hynny.
- 3.2 Cynhaliwyd yr ymgynghoriad rhwng 22 Hydref 2018 a 18 Ionawr 2019, ond rhoddwyd estyniad tan 31 Ionawr i'r rhai a wnaeth gais am un. Cafwyd 67 o ymatebion – 42 drwy e-bost, 20 ar-lein a 5 ar ffurf copi caled.
- 3.3 Mae Stephen Macey, Swyddog Ymchwil Gymdeithasol Llywodraeth Cymru, wedi dadansoddi'r ymatebion. Mae wedi darparu crynodeb helaeth sy'n 107 o dudalennau o hyd. Nid yw'r Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip wedi gweld y crynodeb hwn eto ond mae swyddogion yn ei adolygu ar hyn o bryd a byddant yn ei gyflwyno iddi i'w ystyried yn fuan. Yna caiff y crynodeb ei rannu â'r Fforwm ac, wedi hynny, ei gyhoeddi ar-lein.
- 3.4 Canfyddiadau Allweddol
  - Model cymdeithasol o anabledd – croesawodd llawer o ymatebwyr y cyfeiriadau at y Model Cymdeithasol a'r diffiniad ohono. Fodd bynnag, dywedodd rhai fod iaith y Model Cymdeithasol yn cael ei defnyddio'n anghyson drwy gydol y ddogfen a bod enghreifftiau o ddefnyddio iaith nad oedd yn gyson â'r Model Cymdeithasol.
  - Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl Anabl – croesawyd y cyfeiriadau ar y cyfan ond roedd rhai ymatebwyr yn siomedig nad yw'r Confensiwn wedi'i ymgorffori yng nghyfraith Cymru eto. Mae galw hefyd am fwy o ymwybyddiaeth o'r Confensiwn ar draws Llywodraeth Cymru.
  - Dangosyddion, Amserlenni a Thargedau – roedd llawer yn teimlo y byddai cynnwys targedau ac amserlenni yn cryfhau'r fframwaith.
  - Grant Byw'n Annibynnol Cymru – gofynnodd nifer o ymatebwyr pam nad oedd cyfeiriad yn y Fframwaith na'r Cynllun Gweithredu at y Grant hwn.
  - Eiriolaeth – dywedodd nifer o ymatebwyr nad oedd y Fframwaith yn cyfeirio digon at wasanaethau eirioli ac nad oedd digon o bwyslais wedi cael ei roi ar bwysigrwydd y gwasanaethau hyn.

- Cefnogodd nifer o ymatebwyr waith Alison Tarrant a Dr Simon Hoffman ym Mhrifysgol Caerdydd ar ran Grŵp Rhanddeiliad Hawliau Dynol Cymru, a'u hymatebion i'r ymgynghoriad.
- Cefnogi amrywiaeth o anabledau – galwodd nifer o ymatebwyr ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod pob math o anabled yn cael ei adlewyrchu, gan gynnwys y bobl hynny ag anabledau cudd a'r rhai sy'n wynebu mwy nag un anfantais.
- Deddfwriaeth – roedd rhai ymatebwyr am gael mwy o eglurhad ynghylch sut y byddai'r Fframwaith newydd yn cyd-fynd â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru).
- Cysondeb â chynlluniau eraill Llywodraeth Cymru - roedd cefnogaeth eang i'r ffaith bod y Fframwaith yn gyson â Ffyniant i Bawb. Fodd bynnag, roedd rhai ymatebwyr yn teimlo bod gormod o symud tuag at flaenoriaethau Llywodraeth Cymru ac oddi wrth flaenoriaethau pobl anabl. Roedd galwadau i'r Fframwaith gael ei ystyried ar y cyd â strategaethau a chynlluniau eraill Llywodraeth Cymru.

### 3.5 Themâu o dan Ffyniant i Bawb

- Ffyniannus a Diogel – croesawodd ymatebwyr y ffaith bod y rhwystrau sy'n wynebu pobl anabl wrth fynd i mewn i waith yn cael eu cydnabod ond codwyd pryder nad oedd pob person anabl mewn sefyllfa i weithio; galwadau i Lywodraeth Cymru bennu targedau ar gyfer cartrefi hygyrch a'i gwneud hi'n ofynnol i bob awdurdod lleol gadw a chyhoeddi Cofrestr leol o Dai Hygyrch yn rheolaidd.
- Iach ac Egnïol – pryder am ddiffyg camau gweithredu mewn perthynas â rôl gofal cymdeithasol yn y ddogfen ddiwygiedig; pryder bod cyfleoedd i bobl anabl gymryd rhan mewn chwaraeon yn gyfyngedig a'u bod yn amrywio'n fawr yn dibynnu ar ble mae pobl yn byw.
- Uchelgeisiol ac yn Dysgu – pryder bod cost ac argaeledd cyrsiau iaith arwyddion yn rhwystr i deuluoedd plant byddar ifanc; galw am fynd i'r afael â phroblemau cyllido er mwyn sicrhau y gall dysgwyr ag anabledau dysgu gael addysg ôl-16.
- Unedig a Chysylltiedig – cefnogaeth i'r ddeiseb ar dystysgrifau mynediad i bob safle yng Nghymru; pryder bod diffyg trafndiaeth gyhoeddus hygyrch yn atal pobl anabl rhag byw'n annibynnol; pryder bod pobl anabl yn cael eu cau allan o safleoedd twristiaeth.

3.6 I gloi, amlinellodd LP y camau nesaf. Bydd swyddogion nawr yn adolygu'r ymatebion ac yn gwneud y newidiadau angenrheidiol i'r Fframwaith a'r Cynllun Gweithredu. Caiff y drafft cyntaf ei gyflwyno i'r Grŵp Llywio ar gyfer Byw'n Annibynnol ei ystyried yn ei gyfarfod nesaf ar 3 Mai. Rhagwelir y caiff y fersiwn derfynol o'r Fframwaith a'r Cynllun Gweithredu ei chyhoeddi yn ystod haf 2019.

3.7 Dywedodd y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip nad oedd yn syndod clywed rhai o'r ymatebion, yn enwedig y rhai sy'n ymwneud ag ymgorffori Confensiwn y Cenedloedd Unedig ar Hawliau Pobl Anabl yng nghyfraith Cymru, a chadarnhaodd fod Llywodraeth Cymru wrthi'n chwilio am gyfleoedd i fynd i'r afael â hyn.

3.8 Croesawodd Rhian Davies (RD) ymrwymiad Llywodraeth Cymru i'r Model Cymdeithasol o anabled a'r ffaith bod Llywodraeth Cymru yn edrych yn ymarferol ar sut y gellir mynd i'r afael â Chonfensiwn y Cenedloedd Unedig, gan fod Anabled Cymru a'r Grŵp Llywio wedi galw am hyn ers tro.

- 3.9 Cadarnhaodd y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip y byddai'n cyhoeddi Datganiad Ysgrifenedig neu'n ysgrifennu at randdeiliaid yn tynnu sylw at fwradau Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'r Fframwaith a'r Cynllun Gweithredu newydd. Mae'n bwysig bod y gwaith hwn yn cael ei gefnogi gan holl Weinidogion Cymru ac mae hyn yn gyfle i sicrhau ei fod yn cael ei wreiddio ym mhob rhan o Lywodraeth Cymru.
- 3.10 I gloi, nododd RD fod cyflogaeth yn un o brif bwyntiau ffocws y Fframwaith. Roedd hyn i'w groesawu ond mae'n bwysig sicrhau na chaiff ei dehongli fel y prif bryder pan fo materion eraill fel gofal cymdeithasol, addysg, trafndiaeth a thai hefyd yn bwysig iawn. Diolchodd RD i swyddogion Llywodraeth Cymru am annog rhanddeiliaid i ymateb i'r ymgynghoriad, sydd i'w weld yn nifer yr ymatebion a ddaeth i law.

#### **4. Effaith Brexit ar Bobl Anabl**

- 4.1 Mae llawer o waith yn cael ei wneud ar draws Llywodraeth Cymru i baratoi ar gyfer Brexit ac mae'r Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip yn cydnabod, os bydd Brexit yn amharu ar wasanaethau, bod hyn yn debygol o gael effaith anghymesur ar bobl anabl, a bod hon yn risg benodol y mae angen ei hystyried ymhellach. Trodd y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip at PD i gael eglurhad pellach.
- 4.2 Dywedodd PD fod Anabledd Cymru yn gweithio gyda Phrifysgol Caerdydd gan edrych yn benodol ar effaith Brexit ar bobl anabl yng Nghymru a'u bod wedi llunio papur sy'n nodi rhai o'r prif faterion sy'n peri pryder. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymgynghori â chydweithwyr mewn Adrannau amrywiol i gael ymateb i bob un o'r prif faterion a godwyd. Mae'r gwaith hwn yn cysylltu'n ôl â'r Fframwaith newydd – mae'n bwysig gwneud y cysylltiadau angenrheidiol a nodi unrhyw gydgyssylltiadau posibl. Mae swyddogion wrthi'n drafftio ymateb i'r pryderon a godwyd gan Anabledd Cymru, a gaiff ei rannu ag aelodau'r Fforwm yn fuan.
- 4.3 Diolchodd y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip i Anabledd Cymru am ei waith yn y maes hwn a chytunodd fod hon yn flaenoriaeth y mae'n rhaid ei hystyried. Hysbysodd yr aelodau fod y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Brexit wedi cael ei wahodd i'r cyfarfod heddiw ond nad oedd wedi gallu dod yn anffodus; fodd bynnag, mae wedi nodi ei fod yn awyddus i gwrdd â rhanddeiliaid anabledd. Dywedodd y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip fod Pwyllgor Cabinet yr UE yn cyfarfod y bore yma hefyd ac y byddai'n rhoi blaenoriaeth i edrych ar effaith Brexit gyda'r Prif Weinidog a'r Gweinidog Brexit wedi hynny.
- 4.4 Gwahoddodd y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip yr aelodau i wneud unrhyw sylwadau.
- 4.5 Gofynnodd Daisy Cole (DC) p'un a oedd hawliau cyflogaeth wedi cael eu codi fel un o'r prif faterion a chadarnhaodd PD fod hynny wedi digwydd. Gofynnodd DC hefyd am gyllid yn y dyfodol a'r ffaith bod y Gronfa Ffyniant Gyffredin wedi cael ei defnyddio'n helaeth i gefnogi pobl anabl a bod parhad ffrydiau cyllido ar ôl Brexit yn destun pryder.
- 4.6 Cytunodd y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip fod cyllid yn y dyfodol yn bryder a chroesawodd farn yr aelodau ar y Gronfa Ffyniant Gyffredin. Yn dilyn ymgynghoriad y llynedd, mae trefniant partneriaeth yn cael ei ystyried fel opsiwn ar hyn o bryd.

Mae gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru fforwm ar Brexit sy'n rhoi cyfle i wyntyllu pryderon am gyllid.

- 4.7 Ysgrifennodd y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip llythyr yn ddiweddar a oedd yn dangos sut mae Llywodraeth Cymru yn defnyddio arian o'r Gronfa Bontio Ewropeaidd i roi hwb i'w rhaglen cydlyniant cymunedol a'r Ganolfan Genedlaethol Adrodd am Droseddau Casineb a Chymorth yn ystod cyfnod Brexit. I'r rhai na welsant y llythyr, bydd swyddogion yn rhannu copi.

**Cam gweithredu: Swyddogion Llywodraeth Cymru i rannu llythyr y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip ar ddefnyddio'r Gronfa Bontio Ewropeaidd.**

- 4.8 Mae Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru ar gyfer Troseddau Casineb yn pryderu bod nifer y troseddau casineb yn erbyn pobl anabl y rhoddwyd gwybod i'r heddlu amdanynt wedi lleihau yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Mae aelodau'r Bwrdd yn ymchwilio i'r rheswm dros hyn, gan gynnwys p'un a yw hyn wedi digwydd am fod y ddeddfwriaeth troseddau casineb yn erbyn pobl anabl yn anaddas at y diben ac felly fod pobl yn llai hyderus i roi gwybod am droseddau o'r fath. Mae Llywodraeth y DU wedi gofyn i Gomisiwn y Gyfraith gynnal adolygiad a fydd yn ystyried y ddeddfwriaeth troseddau casineb yn erbyn pobl anabl. Mae'r Bwrdd yn awyddus i gymryd rhan yn yr adolygiad hwn er mwyn sicrhau bod barn Cymru yn cael ei hystyried. Bydd y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip yn mynd i gyfarfod nesaf y Bwrdd Cyfiawnder Troseddol ar gyfer Troseddau Casineb a gynhelir yng Nghyffordd Llandudno ar 11 Ebrill; ychwanegodd PD fod croeso i unrhyw rai o aelodau'r Fforwm fynd i'r cyfarfod os oeddent yn dymuno.
- 4.9 Cafwyd crynodeb gan RD o'r gwaith y mae Anabledd Cymru yn ei wneud gyda Dr Charles Whitmore ac fel rhan o hyn, cynhelir digwyddiad bord gron ar ddiwedd mis Mai i drafod y papur y maent wedi'i ddatblygu. Dywedodd RD ei bod wedi gwahodd y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip i fod yn bresennol a'i bod wedi cytuno. Dywedodd hefyd ei bod wedi estyn gwahoddiad i'r Gweinidog Brexit.
- 4.10 Cadarnhaodd PD y byddai ymateb terfynol Llywodraeth Cymru i'r pryderon a godwyd gan Anabledd Cymru yn cael ei lunio yn barod ar gyfer y digwyddiad bord gron ar ddiwedd mis Mai.

**Cam gweithredu: Llywodraeth Cymru i lunio ei hymateb terfynol i'r pryderon a godwyd gan Anabledd Cymru a'i rannu ag aelodau'r Fforwm cyn y digwyddiad hwn, unwaith y bydd y dyddiad wedi'i gadarnhau.**

## **5. Adolygu Amcanion y Cynllun Cydraddoldeb Strategol**

- 5.1 Eglurodd PD fod Llywodraeth Cymru wrthi'n adolygu ac yn adnewyddu ei Chynllun Cydraddoldeb Strategol presennol sy'n para nes mis Mawrth 2020, felly bydd angen Cynllun newydd erbyn mis Ebrill 2020. Mae'r amserlen hon hefyd yn cyd-daro â'r rhaglen gyllido Cydraddoldeb a Chynhwysiant bresennol ac mae'n bwysig bod y ddwy yn gydnaws.

- 5.2 Mae swyddogion yn awyddus bod y gwaith i ddatblygu'r Cynllun yn cael ei lywio gan ystod eang o safbwyntiau ar yr anghydraddoldebau â blaenoriaeth i grwpiau gwarchoddedig. Mae'r gwaith ymgysylltu yn digwydd mewn dau gam – yn gyntaf, cyfres o ddigwyddiadau ymgysylltu anffurfiol â rhanddeiliaid allweddol, sydd wedi digwydd yn ddiweddar, yna ymgynghoriad ffurfiol yn ddiweddarach eleni.
- 5.3 Mae swyddogion wrthi'n edrych ar adroddiad y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol 'A yw Cymru'n Decach? 2018' er mwyn llunio sail y Cynllun newydd. Cafodd hyn ei gefnogi gan randdeiliaid yn y digwyddiadau ymgysylltu; fodd bynnag, mae pryderon am gollu ffocws clir ar nodweddion gwarchoddedig. Bydd swyddogion yn hysbysu'r Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip am y Cynllun newydd yn fuan, cyn yr ymgynghoriad ffurfiol.
- 5.4 Gofynnodd y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip i'r aelodau a oedd unrhyw un ohonynt wedi mynd i'r digwyddiadau ymgysylltu ac a oedd ganddynt unrhyw adborth. Cafwyd adborth cadarnhaol gan Danni Richards (DR); roedd hi'n dda gweld y byddai'r ffordd ymlaen yn helpu sefydliadau gwirfoddol i sicrhau bod grwpiau lleiafrifol yn dod yn fwy prif ffrwd ac yn helpu i ddymchwel rhwystrau. Cytunodd RD fod y digwyddiad yr oedd hi wedi ei fynychu yn werthfawr a'i bod yn dda gweld ystod mor eang o sefydliadau yn cael eu cynrychioli yno. Aeth RD ymlaen i ddweud fod llawer wedi newid ers y cynllun presennol, e.e. y cynnydd mewn tlodi o ganlyniad i gyntaf sydd wedi cael effaith ar lesiant a hawliau cyfartal pobl. Mae mwy o ymwybyddiaeth o gydgyfeiriadedd bellach e.e. mae Anabledd Cymru wrthi'n gweithio gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau ar faterion sy'n effeithio ar fenywod anabl. Ar y cyfan, mae RD yn teimlo y bydd hyn yn anodd o ystyried maint y problemau y mae angen mynd i'r afael â nhw a'r arian sydd ar gael. Mae twf wedi bod mewn eithafiaeth, rhywbeth sydd heb fod ar yr agenda bob amser; fodd bynnag, bydd angen adnoddau i fynd i'r afael â hyn.
- 5.5 Cytunodd y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip fod angen i'r materion hyn gael eu hadlewyrchu yn y Cynllun yn y dyfodol ac, unwaith eto, bod y rhain i gyd yn faterion trawslywodraethol. Ychwanegodd y bydd mwy o gyfleoedd i gyfrannu at yr adolygiad hwn a gofynnodd i'r Fforwm ymgynghori â'u haelodau a chyfrannu eu safbwyntiau.
- 5.6 Cytunodd Zoe Williams (ZW) â'r ymagwedd thematig a allai roi sylw i'r effaith gronol. Gall pobl ddatblygu cyflyrau mwy cymhleth dros amser, e.e. pobl hŷn, felly byddai'n dda edrych ar gydraddoldeb drwy gydol oes unigolyn, gall rhai o'r materion mawr fel gofal cymdeithasol a chynnydd yn y boblogaeth achosi sefyllfaoedd lle bydd pobl anabl hŷn yn wynebu gwahaniaethu.
- 5.7 Cytunodd PD a chadarnhaodd fod hyn wedi cael ei godi yn y digwyddiadau ymgysylltu, ynghyd â chydgyfeiriadedd. Rhagwelir y bydd polisïau fel y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol yn ei gwneud hi'n haws adnabod y materion hyn a'u heffaith ar fywydau pobl. Bydd hi'n bwysig edrych ar ffyrdd gwahanol o fynd i'r afael â'r adolygiad, mae wyth amcan allweddol ar hyn o bryd ac mae angen penderfynu a ddylid cadw'r strwythur hwn neu a ddylid canolbwyntio mwy ar gamau gweithredu. Bydd newid hefyd tuag at iaith gliriach er mwyn sicrhau bod y Cynllun a'i amcanion yn ddealladwy i bawb.

## 6. Cynllun Cyflogadwyedd – Cyflogaeth i Bobl Anabl

- 6.1 Hysbysodd y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip yr aelodau ei bod wedi cyfarfod yn ddiweddar â Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth, sy'n arwain y gwaith o gyflawni Cynllun Cyflogadwyedd Llywodraeth Cymru, er mwyn trafod beth arall y gellir ei wneud er mwyn cau'r bwloch cyflogaeth i bobl anabl yng Nghymru. Yna gofynnodd y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip i LP roi diweddariad.
- 6.2 Mae dau ymrwymiad newydd yn y Fframwaith newydd i gefnogi'r gwaith ynghylch cau'r bwloch cyflogaeth i bobl anabl. Un o'r ymrwymïadau yw sefydlu rhwydwaith o Hyrwyddwyr Anabledd i ymgysylltu â gwahanol gyflogwyr ar hyd a lled Cymru er mwyn sicrhau eu bod yn gallu manteisio ar asedau, sgiliau ac entrepreneuriaeth pobl anabl; mabwysiadu dull cynhwysol o weithredu yn eu prosesau recriwtio; a helpu cyflogwyr i ddeall y rhwystrau sy'n wynebu pobl anabl. Mae swyddogion wrthi'n ystyried nifer o opsiynau sy'n ymwneud â hyn a byddant yn darparu diweddariad arall cyn gynted â phosibl.
- 6.3 Yr ymrwymiad arall yw datblygu cynllun gwobrwyo anabledd i gyflogwyr yng Nghymru a fydd naill ai'n adeiladu ar Hyderus o ran Anabledd neu'n gynllun newydd a fydd yn annog cyflogwyr i geisio bod yn fwy cefnogol o bobl anabl.
- 6.4 I symud hyn yn ei flaen, cyfarfu swyddogion â swyddogion o'r Adran Gwaith a Phensiynau yn ddiweddar i drafod ei chynllun Hyderus o ran Anabledd presennol. Cyn y cyfarfod, darparodd Anabledd Cymru adborth o'r sector. Cydnabu'r Adran Gwaith a Phensiynau fod meysydd lle gellid gwella'r cynllun; fodd bynnag, mae'n awyddus i weithio gyda Llywodraeth Cymru i wella'r cynllun presennol yng Nghymru yn hytrach na datblygu cynllun newydd sbon arall oherwydd teimlwyd y gallai hyn fod yn rhy feichus i gyflogwyr.
- 6.5 Dywedodd yr Adran Gwaith a Phensiynau y byddai'n ystyried y pwyntiau a godwyd gan Anabledd Cymru yn fanylach ac awgrymodd y dylid trefnu cyfarfod arall o fewn yr wythnosau nesaf a fyddai'n cynnwys rhagor o swyddogion o'r Adran, er mwyn ystyried y mater ymhellach. Anogodd y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip aelodau'r Fforwm i gymryd rhan yn y cyfarfodydd hyn yn y dyfodol.
- 6.6 Dywedodd DW fod angen newid agweddau cyflogwyr. Mae nifer o addasiadau rhesymol y gellid eu gwneud yn y gweithle nad ydynt yn cael eu gwneud ar hyn o bryd, nid dim ond technoleg gynorthwyol, ond newidiadau amgylcheddol cost isel sy'n gallu gwneud gwahaniaeth mawr. Mae potensial hefyd i gronni adnoddau cymorth yn hytrach na darparu cymorth un i un sy'n gallu bod yn gostus.
- 6.7 Cytunodd Joanna Fashan (JF) â'r opsiwn dewisol, h.y. adeiladu ar raglen bresennol yr Adran Gwaith a Phensiynau. Cadarnhaodd LP y bydd swyddogion yn gweithio hefyd â chydweithwyr Sgiliau, Addysg Uwch a Dysgu Gydol Oes ar hyn yn y dyfodol.
- 6.8 Diolchodd y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip i Anabledd Cymru am godi ei bryderon â'r Adran Gwaith a Phensiynau ac awgrymodd y dylai barhau i fod yn rhan o drafodaethau yn y dyfodol. Cynigiodd ZW, DC a JF gynrychioli eu sefydliadau – Anabledd Dysgu Cymru, Action on Hearing Loss a Whizz-Kidz yn y drefn honno, yn ystod trafodaethau yn y dyfodol. Croesawodd y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip hyn a gofynnodd i gyfarfod arall gael ei drefnu gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau a fydd

yn cynnwys yr aelodau hynny o'r Fforwm a enwir uchod ynghyd â RD ar ran Anabledd Cymru. Gofynnodd y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip hefyd i RD rannu'r materion a gododd â'r Adran Gwaith a Phensiynau gydag aelodau'r Fforwm.

- 6.9 Aeth y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip ymlaen i bwysleisio, er ei bod yn bwysig gweithio mewn partneriaeth gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau, fod yn rhaid i'r hyn a wneir yng Nghymru gael ei wneud yn iawn ac awgrymodd y gallai'r mentrau newydd gael eu treialu yn gyntaf a'u datblygu ar sail profiad yr aelodau. Awgrymodd Martyn Jones (MJ) y dylai'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol gael ei gynnwys hefyd gan ei fod wedi lansio cynllun prentisiaethau yn ddiweddar. Gofynnodd Owen Williams (OW) a fyddai unrhyw gymorth ychwanegol, fel Mynediad i Waith, ar gael ar gyfer prentisiaethau. Cynigiodd PD godi hyn â chydweithwyr yn Llywodraeth Cymru er mwyn cael ateb.

**Cam gweithredu:** **1. Swyddogion Llywodraeth Cymru i drefnu cyfarfod arall â'r Adran Gwaith a Phensiynau i gynnwys Rhian Davies, Zoe Williams, Daisy Cole a Joanna Fashan.**

**2. RD i rannu'r pwyntiau a gododd Anabledd Cymru gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau ynghylch ei chynllun Hyderus o ran Anabledd.**

**3. Swyddogion cydraddoldeb i gysylltu â chydweithwyr ynghylch y ddarpariaeth cymorth ychwanegol sydd ar gael ar gyfer Prentisiaethau.**

## **7. Hyrwyddo'r Model Cymdeithasol o Anabledd**

- 7.1 Cyfeiriodd y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip at ei hymrwymiad i hyrwyddo'r Model Cymdeithasol yn 2001 yn ystod ei chyfnod fel Gweinidog lechyd ac mae'n falch ei bod yn gallu ymdrin â'r Model unwaith eto. Mae'n bwysig bod y Model Cymdeithasol yn cael ei adlewyrchu ym mhopeth a wna Llywodraeth Cymru yn y dyfodol.
- 7.2 Hysbysodd y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip yr aelodau am gyfres o ddigwyddiadau â rhanddeiliaid a gaiff eu cynnal ar hyd a lled Cymru yn y gwanwyn. Bydd canlyniad y digwyddiadau hyn yn helpu i ddatblygu pecyn hyfforddi ar y Model Cymdeithasol o Anabledd a gaiff ei gyflwyno i holl staff Llywodraeth Cymru.
- 7.3 Aeth LP ymlaen i egluro bod swyddogion yn gweithio gyda chydweithwyr lechyd i drefnu'r digwyddiadau hyn, sy'n debygol o gael eu cynnal ym mis Mai yn y Gogledd, y Canolbarth a'r De. Nid yw'r dyddiadau wedi'u cadarnhau eto ond gobeithio y caiff y gwahoddiadau eu hanfon o fewn yr wythnosau nesaf.
- 7.4 Mae swyddogion o Adran Adnoddau Dynol a Changen Cydraddoldeb Llywodraeth Cymru a rhai o aelodau'r Rhwydwaith Cymorth Anabledd ac Ymwybyddiaeth wedi sefydlu grŵp mewnol i hyrwyddo'r Model Cymdeithasol ar draws Llywodraeth Cymru. Mae'r grŵp wrthi'n ystyried datblygu cwrs hyfforddi a/neu becyn e-ddysgu ar-lein ar gyfer holl staff Llywodraeth Cymru. Rhagwelir y bydd canlyniad y digwyddiadau â rhanddeiliad yn helpu i lywio cynnwys yr hyfforddiant hwn.



- 7.5 Ychwanegodd PD, er bod pryderon am yr iaith a ddefnyddir o fewn y sector a fydd yn cael sylw, ei bod hefyd yn bwysig ystyried y goblygiadau ehangach ac mae gennym y cyfle nawr i fwrw ymlaen â hyn. Bydd yr hyfforddiant i weision sifil yn broses barhaus a bydd swyddogion hefyd yn edrych ar feysydd polisi penodol lle gwelir bod y Model Cymdeithasol yn cael ei roi ar waith. Ar hyn o bryd mae tri maes polisi o dan ystyriaeth yn hyn o beth – Tai, Diwylliant ac Amgueddfeydd, a Thrais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol, sydd i gyd wrthi'n datblygu polisiau newydd.
- 7.6 Gofynnodd ZW hefyd am ffocws ar Addysg, lle gellid ystyried ailddosbarthu adnoddau ysgolion gan ddefnyddio'r Model Cymdeithasol. Cytunodd DR fod angen mynd i'r afael â'r derminoleg o ran cymorth i fyfyrwyr, yn fwy na'r blynyddoedd iau ond bod enghreifftiau lle mai dim ond ar ôl iddynt gael diagnosis meddygol y gall dysgwyr hŷn gael cymorth sy'n golygu nad yw pob myfyriwr, yn enwedig yn y Brifysgol, yn cael y cymorth sydd ei angen arno. Cytunodd y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip fod hyn yn rhywbeth a fyddai o ddiddordeb mawr i'r Gweinidog Addysg ac er ei bod yn galonogol cael rhai meysydd polisi i ddechrau arnynt yn hyn o beth, bydd angen ymrwymiad ar draws Llywodraeth Cymru i gyd.
- 7.7 Gofynnodd y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip i'r aelodau ymgysylltu cymaint â phosibl ar hyn, ac annog eu rhwydweithiau i gymryd rhan a mynd i'r digwyddiadau â rhanddeiliad er mwyn helpu i lywio cyfeiriad y gwaith hwn. Ychwanegodd PJ fod ei sefydliad, Cŵn Tywys Cymru, wedi gwneud gwaith blaenorol ar hyn y bydd yn ei fwydo i mewn.

## **8. Hygyrchedd mewn Mannau Cyhoeddus: Ymgyrch 'Sgoriau ar Ddrysau'**

- 8.1 Cydnabu'r Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip y byddai llawer o aelodau eisoes yn gyfarwydd â'r ymgyrch hon a ddatblygwyd gan Gynghrair Pobl Anabl Pen-y-bont ar Ogwr ac sydd wedi bod yn destun deiseb i'r Cynulliad Cenedlaethol. Mae'r Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip yn cefnogi egwyddorion yr ymgyrch hon ac mae'n falch iawn ei bod yn cael ei datblygu. Yna gwahoddwyd RD i roi diweddariad.
- 8.2 Cadarnhaodd RD fod Simon Green o Gynghrair Pobl Anabl Pen-y-bont ar Ogwr wedi bod yn arwain y fenter hon sydd wedi cael ei thrafod sawl gwaith yn y Senedd ac sydd wedi cael cefnogaeth eang. Cyfarfu Anabledd Cymru a Chynghrair Pobl Anabl Pen-y-bont ar Ogwr â swyddogion Llywodraeth Cymru i drafod sut y gellir datblygu'r ymgyrch hon. Mae Anabledd Cymru wrthi'n datblygu ymarfer cwmpasu, yn ymgysylltu â rhanddeiliaid yn y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector, ac yn edrych ar ystod eang o faterion e.e. hygyrchedd ffisegol a chyfathrebu. Mae'n bwysig ymgysylltu cymaint â phosibl, yn enwedig â busnesau, a sefydliadau fel y Ffederasiwn Busnesau Bach a Chyrrff Masnach er mwyn sicrhau cefnogaeth. Mae Anabledd Cymru a Chynghrair Pobl Anabl Pen-y-bont ar Ogwr yn cydweithio i drefnu cyfres o ddigwyddiadau ymgysylltu yn y dyfodol agos, ynghyd â chynlluniau ar gyfer digwyddiad lansio yn y Senedd.
- 8.3 Dywedodd PD mai'r her bob amser gyda'r math hwn o fenter yw ei symud o'r ardal lle y cafodd ei datblygu a'i rhoi ar waith mewn lleoedd eraill. Dywedodd wrth yr aelodau,

os oeddent yn gwybod am unrhyw fodelau tebyg y gellir ei chymharu â nhw a dysgu oddi wrthynt, y byddai unrhyw awgrymiadau yn cael eu croesawu. Dywedodd JF fod Whizz Kidz yn rhedeg menter debyg yn Llundain drwy Gronfa'r Maer a chynigiodd siarad â RD am hyn y tu allan i'r cyfarfod. Croesawyd yr awgrym hwn.

**Cam gweithredu: JF i drafod prosiect hygyrchedd Whizz Kidz yn Llundain gyda RD.**

## **9. Aelodaeth y Fforwm Cydraddoldeb i Bobl Anabl**

- 9.1 Eglurodd y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip fod y cyfarfod heddiw yn gyfle i adolygu aelodaeth y Fforwm gan ystyried y posibilrwydd o uno'r grŵp â'r Grŵp Llywio ar gyfer Byw'n Annibynnol ar ôl i'r Fframwaith newydd gael ei gyhoeddi yn ddiweddarach eleni. Mae'n bwysig bod pobl anabl yn gallu cyfrannu eu safbwyntiau ac mae adolygu aelodaeth y Fforwm yn cynnig cyfle i Lywodraeth Cymru gael tystiolaeth gan y rhai sy'n ymwneud â materion cydraddoldeb. Gofynnodd y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip i'r aelodau am eu barn ar yr awgrym i uno.
- 9.2 Awgrymodd DC, pe byddai'r ddau grŵp yn uno, y gellid cynnal tri chyfarfod y flwyddyn yn hytrach na dau er mwyn rhoi mwy o gyfle i drafod materion sy'n codi. Cytunodd y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip ei bod yn hapus i'r grŵp newydd gyfarfod deirgwaith y flwyddyn ac ychwanegodd y gellid cynnal cyfarfodydd ar wahân ar gyfer themâu penodol e.e. y Cynllun Cyflogadwyedd. Daeth y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip i'r casgliad, gan ei bod hi'n debygol na fyddai cyfarfod nesaf y Fforwm yn cael ei gynnal nes ddechrau'r hydref, y byddai'n synhwyrol ystyried rhoi'r trefniadau newydd ar waith o'r flwyddyn nesaf ymlaen.
- 9.3 Awgrymodd RD y dylid ailystyried y Cylch Gorchwyl ac edrych ar aelodaeth a chynrychiolaeth. Cytunodd y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip y byddai hyn yn amser da i wneud hynny ac ychwanegodd, ar ôl i'r Grŵp Llywio gyfarfod ym mis Mai (sef cyfarfod olaf y Grŵp yn ôl pob tebyg cyn i'r Fframwaith gael ei gyhoeddi), y dylid bod eitem sefydlog ar Agenda'r grŵp unedig newydd er mwyn cael diweddariadau ar y fframwaith.

**Cam gweithredu: Swyddogion i adolygu'r Cylch Gorchwyl a dod â diwygiadau drafft i'r cyfarfod nesaf.**

## **10. Unrhyw Fater Arall / Dyddiad y Cyfarfod Nesaf**

- 10.1 Hysbysodd RD y cyfarfod fod Anabledd Cymru wrthi'n gweithio gyda Cymorth i Ferched Cymru ar arolwg i gyrraedd merched ag anawsterau dysgu a darparwyr sy'n helpu'r rhai sydd wedi dioddef cam-drin domestig. Caiff y canlyniadau eu trafod yng nghyfarfod y grŵp trawsbleidiol ar 1 Mai, roedd hysbysiad eisoes wedi'i ddosbarthu, bydd RD yn sicrhau y caiff ei rannu â'r aelodau. Gofynnodd Alyson Francis (AF) a oedd unrhyw ganfyddiadau cychwynnol y gellid eu rhannu. Gallai RD ddweud fod mynediad i gyllid ar gyfer llochesi wedi gwella ond bod llawer o waith i'w wneud o hyd; mae achosion lle mae merched a theluoedd wedi cael eu hadleoli y tu allan i'w cymunedau; ac mae diffyg dealltwriaeth o hyd ynghylch yr hyn a gaiff ei gyfrif yn gam-drin domestig yn erbyn merched anabl – bu methiant i gredu unigolion mewn rhai achosion. Bydd RD yn rhannu'r adroddiad ar ôl iddo gael ei gwblhau.

**Cam gweithredu: RD i rannu'r hysbysiad ynghylch cyfarfod y grŵp trawsbleidiol ar 1 Mai a'r adroddiad terfynol ar y canlyniadau ar ôl iddo gael ei gwblhau.**

10.2 Cafwyd y diweddariad canlynol gan OW o Gyngor Cymru i'r Deillion:

- Hysbysodd y grŵp fod y sector colli golwg yng Nghymru wedi ymgyrchu fel un llais yn erbyn penderfyniad Casnewydd i dynnu'n ôl o SenCom. Dywedodd fod y sector wrth ei fodd bod awdurdodau Gwent wedi penderfynu ymrwymo ar y cyd i barhau â gwasanaeth rhanbarthol arfer gorau SenCom tan 2022.
- Mae adroddiadau Cyflwr y Wlad ar gyfer y Sector cyfan - Gwasanaethau i Oedolion (Adsefydlu) a Phlant a Phobl Ifanc (Sefydlu) wedi cael eu cyhoeddi a'u hanfon i bob un o'r Byrddau Partneriaethau Rhanbarthol a CLILC, gyda chais i gyfarfod.
- Mae Cyngor Cymru i'r Deillion wedi codi pryderon bod profion golwg yn cael eu cynnal fel rhan o asesiadau'r Taliadau Annibyniaeth Personol gan aseswyr nad ydynt yn gymwys i wneud hynny. Mae OW yn gweithio gyda'r sector i ddatblygu'r dystiolaeth.

10.3 Gofynnodd PD am farn yr aelodau ar ddau ymgynghoriad sy'n cael eu cynnal ar hyn o bryd a gofynnodd a fyddent yn hapus i swyddogion anfon y dolenni atynt i'w galluogi i ymateb. Mae'r ymgynghoriad cyntaf ar waith sy'n cael ei wneud gan Burdus Access ac Applied Wayfinding sy'n gweithio gyda Llywodraeth Cymru ar arddulliau ffont ar gyfer gwefannau; ac mae'r ail ymgynghoriad ar Gynllun Dychwelyd Blaendal gan Lywodraeth Cymru lle mae swyddogion yn awyddus i glywed barn pobl anabl. Cadarnhaodd yr aelodau eu bod yn hapus i gael gwybodaeth am y ddau ymgynghoriad.

**Cam gweithredu: Swyddogion Llywodraeth Cymru i rannu rhagor o wybodaeth a dolenni i'r ymgynghoriadau uchod.**

10.4 Mae'n debygol y caiff y cyfarfod nesaf ei gynnal ddechrau'r hydref a bydd swyddogion yn cysylltu â rhagor o fanylion maes o law.

10.5 Daeth y cyfarfod i ben am 10.30 a.m. Diolchodd y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip i bawb am eu presenoldeb a'u cyfraniadau ac mae'n edrych ymlaen at weld yr aelodau mewn digwyddiadau eraill maes o law.